Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Y Fali

Y Fali
Ynys Môn
LL65 3EU

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Y Fali

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymuned Y Fali |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 114 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 92 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 22.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 14.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 45.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2018 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 16/10/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy’n gosod cyfeiriad effeithiol ar gyfer datblygiad yr ysgol. Cefnogir gweledigaeth y pennaeth gan dîm o staff ymroddedig sy’n rhan annatod o gymuned ddysgu gynhwysol a chefnogol. Mae’r corff llywodraethol yn dangos ymrwymiad pendant i weithgarwch yr ysgol, gan gyfrannu’n fedrus at lywio ei gwaith drwy gynnig cefnogaeth a her adeiladol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso yn ddigon miniog i ganolbwyntio’n ddigon manwl ar effaith yr addysgu ar y dysgu.

Mae staff yn darparu cwricwlwm sydd wedi’i wreiddio’n effeithiol yng nghyd-destun lleol yr ysgol sy’n meithrin ei pherthynas glòs â’r gymuned leol. Mae disgyblion yn dangos balchder gwirioneddol yn eu cynefin. Mae’r ysgol wedi ymrwymo’n llwyr i fentrau cefnogi’r cyngor cymunedol, sy’n chwarae rhan allweddol wrth feithrin balchder cadarn disgyblion yn eu cymuned.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau dysgu cyfoethog ac ysbrydoledig. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau, yn enwedig yn eu medrau rhifedd a digidol. Fodd bynnag, nid yw’r adborth staff bob amser yn darparu digon o her i gefnogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu.

Mae staff yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol â disgyblion, gan flaenoriaethu eu lles yn ddyddiol. Maent yn ymateb yn sensitif i anghenion unigol, gan adeiladu ar wybodaeth gadarn am gefndiroedd ac anghenion disgyblion. Mae athrawon a chymorthyddion yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a difyr sy’n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn fuddiol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos agweddau brwdfrydig tuag at eu dysgu. Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, yn hapus ac yn hyderus bod staff yn gwrando arnynt. Trwy hyn, mae ymddygiad bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn rhagorol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Mireinio prosesau hunanwerthuso i ganolbwyntio’n fanwl ar effaith yr addysgu ar gynnydd a safonau disgyblion

A2. Sicrhau bod adborth yn darparu her ar gyfer disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Gymuned Y Fali yn gymuned ofalgar, gynhwysol a hapus sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron pob un o'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a chytbwys ac yn dangos ymrwymiad cryf i les disgyblion a staff. Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar sy'n cydweithio'n ddiwyd i sicrhau profiadau ysgogol sy'n cymell disgyblion i ddysgu a meithrin eu chwilfrydedd cynhenid yn llwyddiannus. O ganlyniad i'r berthynas waith gynhaliol sy'n bodoli rhwng y staff a'r disgyblion, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn gwrtais a pharchus ac yn cymryd rhan gadarnhaol mewn gweithgareddau, gan ddangos diddordeb cyson yn eu dysgu.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau i'w gwella. Maent yn cynnig cyfuniad effeithiol o gefnogaeth ac atebolrwydd i staff, gan gyfrannu at brosesau hunanwerthuso bwriadus drwy weithgareddau craffu ac ymweliadau rheolaidd, gan nodi'n bwrpasol y cryfderau a'r cyfleoedd i wella. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwerthuso yn ddigon miniog i ganolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith yr addysgu ar gynnydd a safonau disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm difyr ac ysgogol sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu yn llwyddiannus. Maent yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion rannu eu syniadau a chyfrannu at yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn eu themâu. Mae athrawon yn cyd-blethu'r 'prosiectau bychain' yn fedrus, sy'n cysylltu'n bwrpasol â phrofiadau disgyblion o fewn eu cymuned a thu hwnt. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol a moesegol sy'n arddangos gofal a pharch at eu cymuned a'u hamgylchfyd.

### Ciplun 1: Cwricwlwm perthnasol sy'n adlewyrchu'r ardal

Mae'r ysgol wedi cymryd camau clir i sicrhau bod y cwricwlwm yn gwreiddio profiadau dysgu yng nghyd-destun lleol y disgyblion. Drwy gynllunio bwriadus gan staff, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol i ddysgu mwy am y gymuned maent yn byw ynddi. Yn dilyn taith o gwmpas yr ynys, mae'r disgyblion yn cynllunio, ysgrifennu ac anfon gohebiaeth at wleidyddion lleol yn mynegi pryder am gyfleusterau cyhoeddus ar Ynys Môn. Mae hyn wedi arwain at ymweliad gan yr aelod seneddol lleol i'r ysgol, ymweliad disgyblion i siambr y cyngor lleol ac i Senedd San Steffan.

Trwy hyn, mae'r dull hwn o ddysgu yn rhoi ystyr bwriadus i ddysgu'r disgyblion, gan feithrin eu cysylltiad â'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth o'u lle o fewn y gymdeithas ehangach. Trwy'r cyfleoedd hyn, mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig a chwilfrydig i'w dysgu, gan ddatblygu eu medrau'n gadarn, yn enwedig eu medrau llafar, rhifedd, a phersonol a chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod sylfaen gadarn sy'n cefnogi disgyblion i fwynhau eu dysgu a gwneud cynnydd.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu sydd wedi'i gynllunio'n bwrpasol i gefnogi dysgu ac addysgu ysgogol. Maent yn defnyddio adnoddau deniadol a phwrpasol, ac yn cynnig profiadau dysgu perthnasol sy'n gysylltiedig â phrofiadau go iawn, gan wneud y dysgu'n fwy ystyrlon i ddisgyblion.

Mae athrawon yn dylunio gweithgareddau dysgu pwrpasol sy'n cymell y rhan fwyaf o ddisgyblion i gymryd rhan yn eu dysgu yn frwdfrydig. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion feithrin a gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol mewn dull cynhwysfawr ac effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n gyson at gynnydd cadarnhaol yn eu medrau, gan gynnwys disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn amryw gyd-destun ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn cynnig cefnogaeth wedi'i theilwra'n ofalus i hyrwyddo datblygiad medrau llythrennedd disgyblion. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd, ac mae llawer o'r disgyblion hŷn yn trafod a sgwrsio yn hyderus gyda chyfoedion ac oedolion. Trwy hyn, mae medrau llafar a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Yn gyffredinol, maent yn dechrau dangos gwelliannau trwy adolygu ac ailgyflwyno eu testunau, ac mae hyn yn cyfrannu at gynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg.

Mae athrawon yn defnyddio cwestiynu pwrpasol ac anogaeth amserol i hybu dealltwriaeth a chefnogi cynnydd disgyblion. Maent yn rhoi adborth llafar yn brydlon sy'n helpu disgyblion i adnabod eu cryfderau. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae'r adborth a gynigir i ddisgyblion yn eu harwain i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol. Er hyn, nid yw adborth staff bob amser yn cefnogi disgyblion wella agweddau penodol o'u gwaith. Trwy hyn, nid yw disgyblion yn cyflawni hyd orau eu gallu bob tro.

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r cyfleoedd mae staff yn rhoi i'r disgyblion ddefnyddio ystod o offer digidol yn hyderus wrth gyfoethogi eu dysgu. Trwy hyn, mae medrau digidol bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau bychain. O ganlyniad, mae disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau'n fedrus mewn ystod dda o weithgareddau ar draws y meysydd dysgu.

Mae cymorthyddion ymrwymedig yn cyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol gan wneud defnydd effeithiol o'u harbenigeddau i gyfoethogi ehangder profiadau disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn sesiynau arlwyo sy'n cynnwys coginio cinio rhost yn defnyddio cynhwysion o ardd yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau allweddol ar gyfer bywyd a bod yn hunangynhaliol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae'r pwyslais a roddir ar drafodaethau â rhieni, ynghyd â monitro cynnydd disgyblion, yn cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau darlun cyson a chyfredol o'u hanghenion.

Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol i staff i gefnogi eu datblygiad sydd yn cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiadau cwricwlaidd ac ar yr addysgu.

Mae staff yn darparu cefnogaeth les effeithiol i ddisgyblion, sy'n cynnwys 'soffa sgwrsio', er mwyn darparu cefnogaeth fwriadus ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Caiff ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei hyrwyddo'n effeithiol. Yn ogystal, maent yn dysgu ac yn gwerthfawrogi gwahanol gredoau, ac yn dangos goddefgarwch ac ystyriaeth deg at safbwyntiau pobl eraill yn fuddiol.

Mae'r ysgol ym meithrin cysylltiad cadarn â'r rhieni er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng y cartref a'r ysgol yn gyson.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025